21AIN O FAWRTH

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

### Disgo'r GRhA

Diolch yn fawr i'r GRhA am drefnu disgo gwych i'r disgyblion neithiwr. Diolch i'r holl staff wnaeth aros ac i'r gwirfoddolwyr o'r GRhA wnaeth helpu yn ystod y disgo. Cafodd pawb amser wrth eu bodd!

### Dathlu Dysgu Blwyddyn 4

Roedd yn hyfryd wythnos yma i groesawu rhieni blwyddyn 4 i'r ysgol ar gyfer sesiwn Dathlu Dysgu'r dosbarth. Mae'r disgyblion yn ystod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn ymchwilio er mwyn adeiladu eu "Pentrefi Posibl".Yn ystod y sesiwn Dathlu Dysgu, cafodd y disgyblion gyfle i rannu'r gwaith yma gyda'u rhieni. Edrychwn ymlaen yn fawr at fwynhau mwy o sesiynau Dathlu Dysgu yn ystod y tymor.

### Llwyddiant Pêl-droed

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl droed merched yr ysgol wnaeth ennill pencampwriaeth 5 bob ochr Caerdydd yr wythnos hon. Bydd y tîm nawr yn cystadlu yn y rownd derfynol mewn pythefnos. Mae'r tîm merched a'r tîm bechgyn wedi llwyddo i fynd trwy i'r rownd terfynol. Tipyn o gamp! Diolch i'r staff ac i Mr Chapman am eu hyfforddi.

## Calendr

**1/4/25**
**Eisteddfod Sir Theatr yr Urdd, Undeb y Myfyrwyr Caerdydd**

**2/4/25 a 3/4/25**
**Noson Rhieni**

**5/4/25**
**Eisteddfod Sir yr Urdd, Undeb y Myfyrwyr Caerdydd**

**Bws Beic**


**Neges o drefnwyr y Bws Beic**

Bydd y Bws Beic nesaf yn cael ei drefnu ar y cyd gydag Ysgol Pwll Coch a Radnor Primary, Dydd Gwener yr 28ain o Fawrth!

Mae 4 opsiwn man cychwyn:

- 8.05 Parc Fictoria i adael am 8.15
- 8.15 Parc Thompson i adael am 8.25.
- 8.20 Chapter i adael am 8.30.
- 8.30 cornel o York St & Brunswick i ymuno â'r Bws Beic fydd yn pasio am 8.35. Teuluoedd Treganna yn ymuno â chefn y Bws Beic.

Cofiwch gyrraedd y lleoliadau cychwyn yn brydlon. Croeso mawr i bawb a dewch i ni ddangos i'r ardal leol faint o hwyl yw beicio i'r ysgol!




## Nosweithiau Rhieni

Cofiwch am ein nosweithiau rhieni sydd wedi eu trefnu ar gyfer nos Fercher'r 2il o Ebrill a nos Iau'r 3ydd o Ebrill. Yn ystod y cyfarfod bydd cyfle i drafod cynnydd eich plentyn gydag athro/ atharwes y dosbarth. Bydd hefyd cyfle i chi graffu ar lyfrau eich plentyn. Dyma'r linc ar gyfer trefnu apwyntiad.

Cliciwch ar y link i fwcio amser

## Makaton

Dyma arwydd Makaton yr wythnos. Rydym yn annog pawb yn yr ysgol i ymarfer a defnyddio'r arwydd yn ystod yr wythnos. Diolch i ddisgyblion y dosbarth Meithrin am ddangos i ni sut i wneud yr arwyddion yma.




## Patrwm Iaith

**Dyma batrwm iaith wythnos nesaf**
Beth sy'n bod?
Mae… a …gen i…

**Her**
Oes (peswch/annwyd ayb) arnat ti?
Oes. Mae…arna i.
Nac oes, does dim…arna i

**Testun trafod yr wythnos**
Fyddwn i byth bythoedd yn bwyta…

**Cân yr wythnos**
Yws Gwynedd - Hi fydd yr un

**Idiom yr wythnos**
Y drwg yn y caws